WG35.S.124

# Adgof Uwch Anghof.

MARWOLAETH FY MRAWD,

## JOHN LLOYD,

*Timber Merchant,*

ABERYSTWYTH.

*CYFANSODDWYD Y LLINELLAU HYN YN ADELAIDE, AWSTRALIA.*

# ADELAIDE.

Wedi darllen fy llythyrau a chael ar ddeall, er fy mawr lawenydd, fod pob peth gartref fel y dylai fod, pawb yn mwynhau eu hunain, gan ddymuno yr un rhagorfraint i minau. Nid nifer a lledneisrwydd ymadroddion yw y safon wrth ba un y gwerthfawrogir newyddion fel y rhai hyn, pan mae geiriau fel ar eu goreu yn eu trosglwyddo, ac fel pe yn teimlo eu bod yn cludo newyddion sydd wedi cael esgor arnynt mewn mynwesau sydd yn caru eu gilydd o galonau pur yn helaeth.

Ond mae yr hen ddiareb yn wir, "Cheir mor melus heb y chwerw." Profodd ei hun felly i lawer o dan wahanol amgylchiadau, felly hefyd i minau,—mae un llythyr yn eisiau.

O dan y teimladau yma yr ysgrifenwyd yr ychydig linellau canlynol fel math o "Adgof uwch anghof:"

Ai plentynrwydd ynwyf ydyw
  Dwyn i gof hen bethau fu,—
Meddwl am y ddôl feillionog
  Fan lle gynt chwareuem ni?
Wrth fwynhau teganau plentyn
  Cilia tegwch byd a'i glod;
Nid oes arnaf eisieu heno
  Ddim ond cael yn blentyn fod.

X2CS 3/1758

Gwel yr hên bererin acw,—
  Blwyddau lu adwaena'i ffon,
Fel anghofia 'i chymwynasau
  Wrth adgofio mebyd llon;
Nid rhyw unlliw yr adgofion
  *Tricie bach* ar ddôl a bryn;
Ond os ceir y du fan yma
  Ceir fan acw fwy o'r gwyn.

Daw pelydrau tyner cariad
  I lewyrchu ar y foch,
Aiff y duaf un o honynt
  Yn eich gwydd yn rhosyn coch;
Gwena boneddiges rhinwedd,
  Diniweidrwydd genfydd hi,
Dysga hyn i mi gyfrinion
  Nes wyf bron anwylo'r du.

Difyr gynt oedd chwilio nythod,
  Gwylio arnynt mor ddiball,
Sangu'n ysgafn ar y glaswellt
  Rhag i'r naill wel'd ol y llall;
Hen adgofion sydd yn siarad
  Minau iddynt yn rhoi cred,
Braidd na chlywaf swn hen chwareu'r
  **Cefn du* yn Adelaide.

Myn'd i'r ysgol, chwareu bando,
  Difyr deithio hyd y ddôl,
Gwylio pysgod afon Carrog
  Yn ymwybio mlaen ac ol;

*Bryn lle chwareuem pan yn blant.

Am y cyntaf ddringo coeden,
  Am y pellaf roddi naid,
Yna cogio hela llwynog,
  John yn gadben ar yr haid.

Myned adref wedi hyny,
  Rhywun wedi caffael cam,
Adrodd hanes torcalonus
  Trwy ei ddagrau wrth ei fam,
Hithau'n bygwth y wialen
  Nas anghofiau'r gwalch yn hir;
"Nage mam o peidiwch curo,
  'Dodd e' ddim yn ceisio wir."

Fel yna fy nghyfaill y derfydd
  Yn fynych, ein chwareu i gyd,
Rhaid gadael pleserau hoff mebyd,
  I ddeall hen droion y byd;
Rai gweithiau daw enllib a malais
  Anelant eu saethau i'r fron,
Diniwed helyntion ein mebyd,
  A ddysgant onestrwydd fan hon.

Os siomiant a ddaw i'n cyfarfod
  Yn achos mân bethau y byd,
Gwnawn gofio fod yspryd dialgar
  Yn estron i rinwedd o hyd.
Wrth deithio ar bwys y mynedol
  Gan estyn yn mlaen, er yn flin,
Cawn weled y dyn yn y plentyn,
  A'r plentyn yn tyfu yn ddyn.

Nid colli y chwareu yn unig
  Ar fwyniant sy'n rhoddi nacad,
Na gallai hen felus adgofion
  Er llesgedd weinyddu lleshad;
Ond colli rhai fuont yn chwareu
  Derfysgant yn merw fy mron,
Colli ein harwr a'n cadben!
  Edrychem i fyny ar John.

Os methau gwefusau rai prydiau,
  A'r llygad dallbleidiol ei nod,
Y galon adwaenau rinweddau
  Siaradau yn uchel ei glod;
O dyma hen hafan dymunol
  Man enwog gwroniaid y llawr,
Cymdeithas yn edrych i fyny,
  A'r nefoedd yn edrych i lawr.

Rhyw nefol drysor oedd ei gynghorion
A doeth adeiladaeth i dylodion,
Roi wg bythol ar wag obeithion
A nawdd a'u swynau i fynydd Sion;
Nerthu y sal wnai wrth son—am riniau
Y nefoedd olau hoff nwyf eiddilion.

Fel 'r oedd yn blentyn felly'n ddyn
Yn hollol fel efe ei hun.
Trwy nerth ei benderfyniad hyf
'Doedd breichiau rhwystrau byth rhy gryf.
Dirmygau'r hwn ystyriau wawd
Yn etifeddiaeth i'r tylawd.

Ni hoffai wel'd yr eiddil gwan
Yn methu'n lân a chynal dan
Y baich oedd bron a'i lethu lawr,
Na, gormod hyn i'w fynwes fawr.
Ni hoffai weled nerthol fraich
A hi a'i hysgwydd heb un baich.
Bu'r meddwl ar ddychmygol daith
Yn gwadu ffeithiau lawer gwaith,
Ond ffoi a wnaeth dychmygion John
Pan aeth i'r olaf gwyddau hon.
Aeth adre'n llon i fysg y llu
I ganu nawr, a gwynwn ni ?

Ië'n dawel gwnaeth John dewi,—ei nawn
Aeth heb ond ei brofi,
A'i enaid yn llawn yni
Yn moli nawr pam wylwn ni !

Ei holl nerth a wnaeth aberthu—i Dduw
A'i ddawn i'w folianu;
Arhosodd yn yr Iesu,
A llesgedd cyn bedd ni bu.

Llwch ei fedd unwedd unant—a natur
Hynotaf addurniant;
Y blodau wyneb ledant
A lloni wrth weini wnant.

Awelon ni raid chwilio
Am ei fedd, na, dyma fo,
Ei enaid ni fyn huno,

Eiddo gras ni chuddia gro.
O ddifyr ar y ddwyfron
Eitha da oedd iaith y dòn.

Canu wnaeth ar fin yr Ystwyth
 Ac ar lan Iorddonen ddofn,
"Gwnaed y gwynt a'r tonau fynont
 Nid oes arnaf ddim o'u hofn;
Nid i estron wlad y teithiaf,
 Gwel yr hawlfraint gwn yr iaith,
Bu mewn degau mwy peryglon
 Lawer cristion ar y daith."

Beth yw'r cyfnewidiad yma?
"Ha nid marw, dechreu byw!
Oes fy nghyfaill mae gorphwysfa
 Etto'n ol i bobl Dduw."
Ac ar frigwyn dòn arianaidd
 Draw i'r wynfa cludwyd e',
Dacw'r dòn a'n cluda ninau
 Bron yn ymyl, i ba le?
O fy mrawd mi glywaf adsain
 Bron yn ymyl, i ba le?

*Fel un fai yn ymawyddu
 Am gael eto wel'd ei fam,
Cychwyn wnaeth i'r daith yn sydyn,
 'Doedd y pellder ddim ond cam;
Ac ar un o'r heirdd orielau
 Mewn dychymyg gwelaf hi'n

*Bu ei Fam farw ychydig fisoedd o'i flaen.

Siriol sibrwd i glust angel,—
 "Disgwyl John yr ydwyf fi."

Draw ar olaf glogwyn amser
 Meddai yntau y pryd hyn
Ar ryw allu roi oleuni
 Wnai ddisgleirio yn y glyn;
Gwelai mam yn gwenu arno
 Ar y lan yr ochr draw,
Dim ond afon angau rhyngddynt,
 Naill i'r llall yn estyn llaw.

*Bethesda.* JENKIN LLOYD, M.B., &c.

*J. F. Williams, Argraphydd, &c., Bethesda.*